

Y llythyr newyddion ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru

# Dehongli Cymru

## Interpret Wales

Gwanwyn Spring  
2004 rhifyn issue

The newsletter for people working in interpretation in Wales

1



### Yn y rhifyn hwn In this issue

Sam Ham yn sôn am  
nodau, amcanion a themâu  
**Sam Ham on goals,  
objectives and themes**

Rhoi cyfle i gymunedau gymryd  
rhan drwy gyfrwng y celfyddydau  
**Involving communities  
through the arts**

Cynnwys y rhai sydd  
wedi'u cau allan  
**Including the  
excluded**

## DEHONGLI CYMRU/INTERPRET WALES

### Rhifyn 1 Gwanwyn 2004

Cyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar ran Grŵp Llywio Dehongli Cymru

Golygydd: Margi Bryant  
margib@lineone.net  
01437-769323

Dylunio: Olwen Fowler

Argraffwyd gan: CIT Brace Harvatt

Mae Dehongli Cymru/Interpret Wales yn anelu at ennyn diddordeb y cyhoedd yn ein treftadaeth naturiol a diwylliannol drwy waith dehongli o'r radd flaenaf, a rhoi cymorth i ddehonglwr drwy gynnig cyfleoedd i rwydweithio, cael hyfforddiant a rhannu arfer da. Mae'r prosiect yn cael ei redeg gan Grŵp Llywio sy'n cynrychioli'r asiantaethau canlynol:

Cadw – Henebion Hanesyddol Cymru  
Cygner Cefn Gwlad Cymru  
Cygner Sir Ddinbych  
Dŵr Cymru  
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru  
Comisiwn Coedwigaeth Cymru  
Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru  
Parciau Cenedlaethol Cymru  
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru  
Bwrdd Croeso Cymru  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
(a gynrychiolwyd gan Gyngor  
Bwrdeistref Sirol Caerffili)

## Cynnwys

<b>Creu ystyr</b>	<b>4</b>
Sam Ham	
<b>Lle pwy, dehongliad pwy?</b>	<b>8</b>
Shelagh Hourahane	
<b>Ceisio cymryd cam yn ôl</b>	<b>12</b>
Steven Richards-Price	
<b>Peidiwch â'n gadael ni allan!</b>	<b>14</b>
Elaine Jones	
<b>Strategaeth newydd ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol</b>	<b>16</b>
<b>Gwaith celf yn y parc</b>	<b>18</b>
Dave Penberthy	
<b>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn croesawu newidiadau</b>	<b>20</b>
Huw Hughes	

### Ydych chi'n Dehongli Cymru? Yna, cysylltwch â ni!

Os ydych ar ein rhestr bostio, byddwch yn cael:

- rhifynnau rheolaidd o'r llythr newyddion hwn
- manylion llawn am ddigwyddiadau a gweithdai
- cyfleoedd rhwydweithio
- newyddion am yr holl ddatblygiadau i'r dyfodol

Cysylltwch â Margi Bryant

margib@lineone.net 01437-769323

Clawr: Mae mynedfa Kay Aplin i Barc Coetir Bargod yn cyfleu'r amrywiadeth o siapiau naturiol, trefol a diwylliannol sydd i'w gweld yn yr ardal Llun: Dave Penberthy Stori: tudalen 18

# Edrych i'r dyfodol

## croeso gan y Cadeirydd


Croeso i rifyn cyntaf Dehongli Cymru/Interpret Wales, cyhoeddriad newydd ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y sector dehongli yng Nghymru – sector sy'n prysur dyfu. Ein nod yw cynhyrchu'r llythyr newyddion hwn o leiaf ddwy waith y flwyddyn, gan obeithio y bydd nifer ohonoch sy'n ymneud â dehongli yn awyddus i'w ddarllen a chyfrannu ato, gan sicrhau ei ddyfodol fel canolbwyt bywiog sy'n cynnig cyfle i rannu newyddion, myfyrio, trafod a dadlau.

Bydd yn cynnwys newyddion ac erthyglau am bobl a phrosiectau yng Nghymru, yn ogystal â dadansoddiad a syniadau sy'n ymestyn yn ehangach na hynny, megis y darn rydym yn falch o'i gyhoeddi yn y rhifyn hwn gan Dr Sam Ham o Brifysgol Iowa, un o'r meddylwyr cyfoes mwyaf blaengar ym maes dehongli. Cawsom ymateb rhagorol i'n hymholiadau am ddeunydd hyd yn hyn, ac rydym yn ffyddio y bydd hyn yn parhau.

Serch hynny, mae Dehongli Cymru yn llawer mwy na llythyr newyddion. Cafodd ei lansio yng nghynhadledd y Gymdeithas Dehongli Treftadaeth a gynhalwyd yn Abertawe yn 2001. Mae'n brosiect gweledigaethol sy'n anelu at ennyn diddordeb pobl mewn materion sy'n ymneud â threftadaeth amgylcheddol a diwylliannol Cymru, drwy waith dehongli o'r safon uchaf. Mae rhwydweithio effeithiol, rhannu arfer da a chyfleoedd hyfforddi newydd yn rhai o'i brif amcanion. Grŵp Llywio sy'n rhedeg y prosiect, sy'n tynnu ynghyd gynrychiolwyr o'r prif asiantaethau yng Nghymru y mae dehongli yn rhan allweddol o'u gweithgaredd.

Mae'r cynlluniau sydd ar droed yn cynnwys cyfres o weithdai a seminarau ar bynciau sy'n bwysig i'r maes dehongli a meysydd cysylltiedig. Cynhelir y cyntaf yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd ym Mawrth, a bydd yn edrych ar ddehongli a datblygu cynulleidfa. Rydym yn gobeithio mai gweithdy dan arweiniad Sam Ham fydd yr ail, ac fe'i cynhelir rywbryd yn yr hydref. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Rydym yn gobeithio datblygu rhwydwaith gweithredol yn y dyfodol a fydd yn cynnwys



pobl sy'n gweithio ym maes dehongli drwy Gymru, gyda gwefan a fforwm trafod ar-lein yn sail iddo. Bydd hwn yn fod o annog pobl i gyfnewid syniadau a gofyn am gyngor, ac yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer ystod eang o ddigwyddiadau wedi'u trefnu'n lleol.

Erbyn hyn, mae gennym wasanaeth ysgrifenyddol ym mherson Margi Bryant, cyn-swyddog dehongli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Hi, hefyd, yw golygydd y llythyr newyddion, trefnydd digwyddiadau a'r prif berson cyswllt. Cysylltwch â Margi i sicrhau eich bod ar ein rhestr bostio, ac anfonwch eich newyddion, eich barn a'ch awgrymiadau atom.

### Carl Atkinson

Uwch Swyddog Dehongli,  
Cygner Cefn Gwlad Cymru  
Cadeirydd Dehongli Cymru/Interpret Wales



Forestry Commission Wales

# Looking to the future

## a welcome from the Chair

Welcome to the first issue of Interpret Wales/Dehongli Cymru, a new publication for people working in this country's ever-growing interpretive sector. We aim to produce this newsletter at least twice a year, and hope that many of you out there engaged in interpretation will want to read it, contribute to it, and ensure its future as a lively focus for news,

reflection, discussion and debate.

The mix will include news and features about people and projects in Wales, as well as wider-ranging analysis and ideas, such as the piece we're very pleased to publish in this issue by Dr Sam Ham of the University of Iowa, one of the leading contemporary thinkers in interpretation. We've had an excellent response to our requests for material so far, and have high hopes that this will continue.

However, Interpret Wales is much more than a newsletter. Launched at the Association of Heritage Interpretation conference in Swansea in 2001, it's a visionary project that aims to enthuse people about the environmental and cultural heritage of Wales, through interpretation of the highest quality. Effective networking, sharing good practice and new training opportunities are some of its prime objectives. The project is run by a Steering Group, drawn from the main agencies in Wales for whom interpretation is a key area of activity.

Current plans include a series of workshops and seminars on crucial topics in interpretation and related fields. The first, on interpretation and audience development, will be held at the National Museum of Wales in Cardiff in March. The second, we hope, will be a workshop led by Sam Ham, provisionally scheduled for the autumn. For more information, please contact us.

In the future, we hope to develop a functioning network of people active in interpretation throughout Wales, supported by a website and an online discussion forum. This will encourage exchange of views, requests for advice, and new possibilities for a whole range of locally-organised events.

We now have a secretariat in the form of Margi Bryant, former interpretation officer for Pembrokeshire Coast National Park, who is also newsletter editor, events organiser and first point of contact. Please get in touch with Margi to ensure you're on our mailing list, and let us have your news, views and suggestions.

### Carl Atkinson

Senior Interpretation Officer,  
Countryside Council for Wales  
Chair of Interpret Wales/Dehongli Cymru

## INTERPRET WALES/DEHONGLI CYMRU

### Issue 1 Spring 2004

Published by the Countryside Council for Wales on behalf of the Interpret Wales Steering Group

Editor: Margi Bryant  
[margib@lineone.net](mailto:margib@lineone.net)  
01435-769323

Design: Olwen Fowler

Printed by: CIT Brace Harvatt

Interpret Wales/Dehongli Cymru aims to enthuse the public about our natural and cultural heritage through interpretation of the highest quality, and to support interpreters by networking, training and sharing good practice.

The project is run by a Steering Group representing the following agencies:

Cadw - Welsh Historic Monuments  
Countryside Council for Wales  
Denbighshire County Council  
Welsh Water  
Environment Agency Wales  
Forestry Commission Wales  
National Museum & Galleries of Wales  
National Parks in Wales  
National Trust Wales  
Wales Tourist Board  
Welsh Local Government Association  
(represented by Caerphilly County Borough Council)

## Contents

<b>Making meaning</b>	<b>5</b>
Sam Ham	
<b>Whose place, whose interpretation?</b>	<b>9</b>
Shelagh Hourahane	
<b>Seeing the wood for the trees</b>	<b>13</b>
Steven Richards Price	
<b>Include us in!</b>	<b>15</b>
Elaine Jones	
<b>New strategy for cultural tourism</b>	<b>17</b>
<b>Arts in the park</b>	<b>19</b>
Dave Penberthy	
<b>National Trust embraces change</b>	<b>20</b>
Huw Hughes	

### Do you Interpret Wales?

### Then contact us!

If your name's on our mailing list, you'll receive:

- regular issues of this newsletter
- full details of events & workshops
- networking opportunities
- news of all future developments

Contact Margi Bryant  
[margib@lineone.net](mailto:margib@lineone.net) 01435-769323

Cover: Kay Aplin's gateway to Parc Coetir Bargod captures the area's mix of natural, urban and industrial shapes

Photo: Dave Penberthy Story: page 19

Pan glywais rywun yn dweud yn ddiweddar nad yw nodau'n ddefnyddiol wrth gynllunio gwaith dehongli, bu bron i mi dagu. Sut mae cynllunio unrhyw beth heb ddarlun clir o yfory newydd a gwell? Hwyrach eu bod yn swnio fel rhyw freuddwyd gwrrach, ond mae nodau sydd wedi'u mynegi'n glir yn hanfodol er mwyn rhoi ystyr a phwrpas i amcanion dehongli ac, yn y pen draw, i'r themâu sy'n cael eu cyfleu i gynulleidfaeodd er mwyn cyflawni'r amcanion hynny.

Gan amlaf mae nodau sefydliad, boed yn barc cenedlaethol neu'n atyniad tref-tadaeth bach preifat, yn cael eu mynegi mewn datganiad o genhadaeth neu ddatganiad polisi. Os nad oes cenhadaeth, gweledigaeth neu nod gennych (sydd i gyd ag ystyr ddigon tebyg ac yn amhosib i'w mesur) o ble daw eich amcanion? Heb nod mae amcanion yn bethau mympwyol, wedi'u tynnau yn llythrennol o unlle.

Mae'r berthynas rhwng y nodau hyn a'r amcanion dehongli yn bwysig gan mai'r cysondeb rhwng y ddau sy'n rhoi lle dilys i ddehongli yng ngwaith y sefydliad. Pan fo gwaith dehongli'n cael ei gynllunio a'i reoli tu allan i'r finiau real hyn, mae'n colli'r frwydr am ddilysrwydd ac, yn sgîl hynny, yn colli cefnogaeth o fewn y sefydliad.

## Amcanion penodol

Gall amcanion fod yn wybyddol (yn seiliedig ar wybodaeth), yn deimladol (yn seiliedig ar deimladau) neu'n ymddygiadol (yn seiliedig ar weithredoedd). Beth bynnag fo'ch amcanion, gwnnewch yn siŵr eu bod yn disgrifio'n fanwl yr hyn yr ydych am i'ch gwaith dehongli ei gyflawni.

Mae amcanion gwybyddol yn disgrifio'r hyn y bydd ymwelydd yn ei wybod wedi'r rhaglen ddehongli, ac fel rheol maent wedi'u geirio yn nhermau enwi, rhestru neu gofio cynnwys ffeithiol. Mae'n amheus gen i a oes gwir werth i amcanion gwybyddol ar eu pennau eu hunain, gan nad yw gwybod ffeithiau ynddo'i hun yn cyflawni llawer.

Gan ystyried 50 mlynedd o ysgrifennu

# Creu ystyr

## rhai syniadau am nodau, amcanion a themâu

Beth yw'r busnes dehongli 'ma? Beth rydym yn ceisio ei gyflawni, a ble mae dechrau arni?

**Sam Ham** sy'n galw am feddwl clir ar y berthynas rhwng nodau, amcanion a themâu.

athronyddol ar bwrpas dehongli, a mwy na chanrif a hanner o ymchwil wedi'i gyhoeddi ar gyfathrebu dynol, rwy'n amau a oes gan gyflawni amcan sy'n gysylltiedig â chofio neu ddwyn ffeithiau i gof lawer i'w wneud â chyfleu themâu ysgogol. Mewn seicoleg, mae dysgu ffeithiau a gwneud cysylltiadau yn ddau beth gwahanol iawn.

Mae amcanion teimladol yn disgrifio sut y bydd y gwaith dehongli yn gwneud i'r ymwelwyr deimlo. O gael eu cyfuno â thema gref, mae amcanion teimlo yn rhoi grym a nerth i waith dehongli am eu bod yn gwneud iddo gyffwrdd â'r galon, a'r holl bethau goddrychol mae seicolegwyr yn sôn amdanynt. Mae emosiynau'n ysgogiadau pwerus, ac yn gyfrifol am lawer mwy o ymddygiad dynol nag a feddyliwyd yn flaenorol. Mae'n bosibl y bydd amcanion teimlo yn canolbwytio ar dristwch, llawenydd, syndod, arswyd neu emosiynau eraill sy'n briodol i fwriad y dehonglydd. Os oes diddordeb gennych mewn deall sut mae seicolegwyr yn troi emosiwn a theimladau yn gysniadau, dwy ffynhonnell y mae parch mawr iddynt yw D Goleman *Emotional Intelligence* (1995) a J J Ratey *A User's Guide to the Brain* (2002).

Mae amcanion ymddygiadol yn disgrifio'r

byn y bydd ymwelydd yn ei wneud neu ddim yn ei wneud o ganlyniad i'r gwaith dehongli. Mae'r camau hyn, boed yn weithredol neu beidio – fel mynd at y ddesg wybodaeth i ofyn am fwy o wybodaeth, neu beidio â phigo blodau gwylt – yn rhai y mae modd eu gweld a'u gwirio â'ch llygad eich hun. Mae'n rhaid i mi ychwanegu nad oes gan lawer o wasanaethau dehongli amcanion ymddygiadol penodol ac nid oes eu hangen arnynt, oni bai eu bod yn ymateb i broblem reoli o ryw fath. Os oes diddordeb gennych mewn darllen mwy am seicoleg canlyniadau ymddygiadol a dehongli thematig, trowch at S Ham a E Krumpe (1996) Identifying audiences and messages for nonformal environmental education: a theoretical framework for interpreters, yn y *Journal of Interpretation Research* 1(1).

Rwyf wedi fy synnu wrth glywed rhai pobl yn dadlau y dylai dehonglydd lunio rhyw ddatganiad thema mympwyol yn gyntaf cyn mynd ati i geisio ysgrifennu amcanion dysgu sy'n cyd-fynd â'r thema mewn rhyw fodd. Er mwyn i gyfathrebu sy'n cael ei arwain gan themâu wneud unrhyw synnwyr, dylai'r amcan ddod cyn y thema sy'n cael ei dewis, ac nid fel arall. Dylai themâu gael



Sam Ham yn arwain gweithdy diweddar yng Nghiwba wedi ei noddi gan Raglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig

**Sam Ham leading a recent workshop in Cuba, sponsored by the United Nations Development Programme**

eu dewis, eu paratoi a'u cyflwyno er mwyn cyflawni amcanion sydd wedi'u pennu'n barod, boed y rheiny'n wbyddol, yn deimladol neu'n ymddygiadol. Rydym yn dethol ac yn cyfleo themâu er mwyn cyflawni amcanion, sef y canlyniadau rydym yn gobeithio eu creu, wedi'u seilio ar nodau'r sefydliad.

Er bod dehonglwyr yn aml yn etifeddu nodau, mae gennym rwydd hynt i lunio amcanion a themâu. Dylai'r rhain ddeillio o genhadaeth y sefydliad, ond rhaid iddynt hefyd gyd-asio ag arddull a brwdfrydedd y dehonglydd a gwneud yn fawr ohonynt. Gallaf ysgrifennu tema gref ar gyfer fy arddull i a'm dull i o greu a chyflwyno, ond ni allaf wneud hynny i unrhyw un arall.

Mewn cynllun dehongli, gellir creu cyfeiriad thematig ar gyfer dehonglwyr, efallai trwy ddatganiad tema eang ei gwmpas. Bydd hyn yn caniatáu i bob dehonglydd ei drawsnewid yn tema sy'n gwneud i'w galon guro, gan ychwanegu'r angerdd personol a ddisgrifiodd Tilden fel y "cynhwysyn amhrisiadwy". Er eu bod yn ymdrin â'r un nod, bydd dehonglwyr yn creu gwahanol amcanion a gwahanol themâu. Bydd cynllun dehongli sy'n ceisio rhagosod themâu ar gyfer pob gweithgaredd wyneb yn wyneb

yn amddifadu'r staff o'r union gryfder sydd ganddynt i'w gynnig i waith dehongli, sef eu hangerdd a'u harddull cyfathrebu eu hunain.

## Creu cyswllt

Mae dehongli yn fwy na ffordd ddifyr o gyflwyno gwybodaeth. Os ydym yn derbyn damcaniaeth Tilden mai prif ddiddordeb yr ymwelydd yw'r presennol, allwn ni gytuno y bydd gwaith dehongli ar ei orau yn canolbwytio ar greu cyswllt rhwng yr ymwelydd a'r lleoliad? Allwn ni dderbyn nad datganiad mympwyol o ffaith yw tema, ond yn hytrach datganiad unigol sy'n dal yr ystyr yr ydym yn gobeithio y bydd yn treiddio i enaid yr ymwelydd?

Os gallwn gytuno â'r ddamcaniaeth hon, yna gallwn edrych ar ddehongli fel rhywbeth sy'n creu ystyr, sy'n ceisio effeithio ar farn unigolyn am le, nodwedd neu syniad mewn modd sy'n arwain at y canlyniadau a fwriadwyd sydd, yn eu tro, yn gyson â nodau'r sefydliad.

Felly ni ddylai gwaith dehongli gael ei arwain gan amcanion sy'n seiliedig ar gyflwyno ffeithiau. Mae'n well o lawer iddo gael ei arwain gan amcanion sy'n creu ystyr, ac mae hynny'n fwy cyson â seicoleg ddynol

ac athroniaeth gwaith dehongli. Yn hytrach na phenderfynu a yw cynulleidfaoedd yn gallu rhestru ffeithiau, dylai ymarferion gwerthuso ofyn: A yw ymwelwyr yn deall y thema? A all cynulleidfaoedd ddweud yn eu geiriau eu hunain beth oedd y prif syniad? A ydynt yn gallu ymhelaethu ar y prif bwyt maent wedi ei ddysgu? A oedd hyn wedi dylanwadu ar eu safbwyt?

Rwy'n gobeithio bod yr adolygiad hwn wedi helpu i egluro'r berthynas rhwng nodau, amcanion a themâu. Mae'r cyswllt rhesymegol rhyngddynt yn hollbwysig. Mae nodau'n arwain at amcanion, sydd yn eu tro yn gallu arwain at themâu sy'n bwrpasol, yn bwerus ac yn ysgogol. Peidiwch â chanolbwytio ar gofio ffeithiau. Pwysleisiwch y themâu a gwnewch wahaniaeth. Dyna fy tema i!

Mae Sam Ham yn Athro Seicoleg Cyfathrebu ac yn Gyfarwyddwr Hyfforddiant a Chysylltau Allanol Rhyngwladol ym Mhrifysgol Idaho, UDA. Ef yw awdur Environmental Interpretation: a practical guide for people with big ideas and small budgets a sawl cyhoeddriad arall ar waith dehongli, ac mae wedi hyfforddi dros 35,000 dehonglydd mewn 40 gwlad. Cyswllt: sham2@turbonet.com

**Bydd Sam Ham yn rhedeg gweithdy undydd ar gyfer Dehongli Cymru yng Nghaerdydd yn ddiweddarach eleni. Er mwyn sicrhau eich bod yn cael y manylion llawn, cysylltwch â Margi Bryant ar margib@lineone.net, ffôn 01437-769323.**

# Making meaning

## some thoughts on goals, objectives and themes

When I heard someone say recently that goals aren't useful in interpretive planning, I almost gasped. How can you plan anything without a pretty clear sense of a new and improved tomorrow? They may seem like mushy pie-in-the-sky dreams, but well-articulated goals are essential to give meaning and purpose to interpretation objectives, and ultimately to the themes that are communicated to audiences in order to achieve those objectives.

The goals of an organisation, whether it's a national park or a small privately-owned heritage attraction, are usually expressed in its mission or policy statement. If you don't have a mission or a vision or a goal (which all mean approximately the same immeasurable thing) then where do your chosen objectives come from? Without a goal, objectives can only be arbitrary, pulled literally out of the blue.

The relationship between these goals and interpretive objectives is important since it's the consistency between the two that gives interpretation a legitimate place in the organisation's operation. When interpretation is planned and managed in isolation from these very real parameters, it loses the battle for legitimacy and, consequently, support within the organisation.

### Precise objectives

Objectives can be cognitive (knowing), affective (feeling) or behavioural (doing). Whatever your objectives are, make sure they describe in precise terms what you really want your interpretation to accomplish.

Cognitive objectives describe what a visitor will know after an interpretive

What's interpretation really all about?

What are we trying to achieve, and

where should we start? **Sam Ham** calls for rigorous thinking on the relationship between goals, objectives and themes.

programme, and are usually phrased in terms of naming, listing or recalling factual content. I have my doubts whether cognitive objectives alone have any real value, since knowing facts doesn't itself accomplish much. Taking account of 50 years of philosophical writing on the purpose of interpretation, and more than a century and a half of published research on human communication, I'd question whether achieving a recall objective has much to do with the purpose of communicating compelling themes. In psychology, fact-learning and connection-making are very different things.

Affective objectives describe how visitors will be made to feel as a result of the interpretation. When combined with a strong theme, feeling objectives give power and punch to interpretation because they cause it to tug at the heart strings, and all that attitudinal stuff psychologists talk about. Emotions are powerful motivators, and are behind a lot more human behaviour than previously understood. Feeling objectives might focus on sadness, joy, wonderment, awe or other emotions appropriate to an interpreter's purpose. If you're interested in how psychologists

conceptualise emotion and feelings, two highly regarded sources are D Goleman's *Emotional Intelligence* (1995) and J J Ratey's *A User's Guide to the Brain* (2002).

Behavioural objectives describe what a visitor will do or not do as a result of the interpretation. These are actions or inactions – such as going to the information desk to request more information, or not picking wild flowers – that can be observed and verified by the human eye. I must say here that many interpretive services don't have or need explicit behavioural objectives, unless they're directed to a management problem of some kind. If you're interested in reading more about the psychology of behavioural outcomes and thematic interpretation, have a look at S Ham & E Krumpe (1996) Identifying audiences and messages for nonformal environmental education: a theoretical framework for interpreters, in *Journal of Interpretation Research* 1(1).

I've been surprised to hear some people advocate that an interpreter should first craft an arbitrary theme statement and then later try to write learning objectives that somehow fit in with it. If theme-driven communication is to make any sense in



**Sam Ham yn gweithio ar brosiect dehongli diweddar yn Wadi Gimal, Yr Aifft  
Sam Ham working on a recent interpretation project in Wadi Gimal, Egypt**

**Sam Ham will be running a one-day workshop for Dehongli Cymru in Cardiff later this year. To make sure you get full details, contact Margi Bryant at [margib@lineone.net](mailto:margib@lineone.net), tel 01437-769323.**

interpretation, the objective must precede the choice of theme, not vice versa. Themes should be selected, packaged and delivered to achieve pre-determined objectives, whether those objectives are cognitive, affective or behavioural. We select and communicate themes in order to achieve objectives, which are the desired outcomes we hope to produce, based on organisational goals.

Though goals are something interpreters usually inherit, we have much creative latitude in crafting objectives and themes. These must not only derive from the organisation's mission, but they must mesh with and capitalise on the interpreter's own style and enthusiasm. I can write a strong theme for my own style and way of creating and presenting, but I can't do that for anyone else.

In an interpretive plan, a thematic direction can be established for interpreters, maybe through a broad, umbrella theme statement. But then each interpreter will transform it into the theme that causes his or her own heart to pump, bringing in the personal passion that Tilden called "the priceless ingredient". Interpreters will arrive at different objectives and different themes,

even though they are all addressing the same goal. An interpretive plan that tries to prescribe themes for every face-to-face activity will rob the staff of the very strength they bring to interpretation delivery: their own passions and communication styles.

## Connecting

Interpretation is not merely an entertaining way of conveying facts. If we accept Tilden's premise that the visitor's chief interest is squarely in the here and now, can we agree that interpretation at its best will be focused on connecting the visitor to the place? Can we accept that a theme is not just an arbitrary statement of fact, but a singular statement that captures the meaning that we hope will be internalised in a visitor's psyche?

If we can agree on this premise, then we can see interpretation as purposeful meaning-making, aimed at impacting on another human being's point of view about a place, a feature, or an idea in a way that produces desired outcomes that are, in turn, consistent with the organisation's goals.

So interpretation must not be guided by mere fact-giving objectives. It's far better,

and more consistent with human psychology and interpretive philosophy, to be guided by meaning-making objectives. Rather than determining if audiences can list facts, evaluations should be asking: Do visitors get the theme? Can audiences say in their own words what the main idea was? Can they elaborate on the key thing they think they learned? Did it impact on their point of view?

I hope this review has helped to clarify the relationships between goals, objectives and themes. The logical connection between them is all-important. Goals give rise to objectives, which can give rise to purposeful, powerful and compelling themes. Don't focus on factual recall. Hammer home those themes and make a difference. That's my theme!

---

*Sam Ham is professor of Communication Psychology and Director of International Training & Outreach for the University of Idaho, USA. He is author of Environmental Interpretation: a practical guide for people with big ideas and small budgets and many other publications on interpretation, and has trained over 35,000 interpreters in 40 countries. Contact: [sham2@turbonet.com](mailto:sham2@turbonet.com)*

Mae dehongli heddiw'n wynebu sawl her, ac un o'r rhai anoddaf yw rhoi cyfle i gymunedau gyfrannu at egluro pwysigrwydd eu tirwedd a'u hanes. Mae'r celfyddydau'n ddull pwerus o wneud hyn. Mae'r celfyddydau'n ennyn syniadau a theimladau, a gallant ymwneud ag amrywiaeth o bobl na fyddent fel arall efallai'n cael cyfle i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddehongli eu hamgylchedd.

Ers ei sefydlu yn 2001, mae Creu-ad – partneriaeth gelfyddydau sy'n datblygu prosiectau dehongli gyda chymunedau ar draws Cymru – wedi seilio'i waith ar yr egwyddorion hyn. Daw enw'r bartneriaeth o'r geiriau "creu" ac "adeiladu". Mae Creu-ad wedi ymrwymo'n enwedig i weithio ar safleoedd yng nghefn gwlod mewn cydweithrediad â rheolwyr y safleoedd hynny, pobl sy'n byw gerllaw iddynt, a phobl sy'n ymweld â nhw'n rheolaidd.

## Cyfnewid Gwybodaeth

Wrth ddechrau prosiect mae'n bwysig dileu rhwystrau sydd efallai'n bodoli rhwng pobl â gwahanol fathau o ddiddordeb yn y safle neu wahanol fathau o berthynas ag ef. Y cam cyntaf yw cael pawb i gyfnewid eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Bydd gan wardeiniaid neu reolwyr wybodaeth eang a manwl. Bydd pobl leol yn fwy tebygol o ganolbwytio ar agweddau penodol sy'n ddiddorol ac yn werthfawr iddynt hwy'n bersonol, sy'n deillio efallai o brofiadau eu plentyndod neu o hanes sydd wedi'i drosglwyddo iddynt. Bydd gan yr artist, a allai fod yn berson o'r tu allan, ffordd anarferol o weld y byd ynghyd ag ystod o sgiliau i fynegi syniadau a theimladau.

Felly, mae'n bwysig cael pawb sy'n rhan o'r prosiect i siarad, rhannu a theimlo bod ganddynt gyfraniad i'w wneud, a'u cael i ganolbwytio ar brif bwrpas y prosiect. Gall y broses hon fod yn hir ac, fel y gwelsom ni, mae angen bod yn amyneddgwr ac yn hyblyg ynglyn â'r hyn a gyflawnir.

# Lle pwy, dehongliad pwy?


rhoi cyfle i gymunedau gymryd rhan drwy gyfrwng y celfyddydau

I ba raddau y dylai pobl nad ydynt yn arbenigwyr wneud penderfyniadau ynglŷn â dehongli? Sut y gall dehonglwyr proffesiynol helpu pobl i fynegi eu teimladau am dirwedd a lleoedd hanesyddol? **Shelagh Hourahane** sy'n disgrifio sut y mae un bartneriaeth celfyddydau deongliadol wedi troi'r cwestiynau hyn yn sail i'w gwaith.

Yn 2001, dechreuodd Lynne Denman a minnau weithio ar "Ymdeimlad o Gyrraedd", sef prosiect arloesol ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru oedd yn ymwneud â nifer o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol. Roedd hwn yn gyfle allweddol i ni ffurfio Creu-ad a dechrau datblygu'r math o waith dehongli yr oedd y ddwy ohonom yn awyddus i'w wneud. Roedd cydweithio â grwpiau cymunedol lleol mewn amrywiaeth o ffyrdd yn rhan o'r cyfarwyddyd a gawsom ar gyfer "Ymdeimlad o Gyrraedd". Cawsom gymorth gan pobl leol i ddatblygu'r themâu a fyddai'n ganolog i'r gwaith dehongli, a buont yn cymryd rhan yn y broses ddylnio ac yn creu elfennau o rai o'r cerfluniau deongliadol.

Gwnaeth un o'r prosiectau hyn, sef yr un ar gyfer Canolfan Ymwelwyr Twyni Ynyslas, alluogi plant ac oedolion lleol i ysgrifennu barddoniaeth am y warchodfa natur yn Gymraeg a Saesneg. Cafodd cerddi dethol eu casglu ynghyd a'u darlunio mewn "Llyfr Mawr", a chafodd cymalau o'r cerddi eu cerfio ar y siapiau tebyg i foresg oedd

Cerddi a lluniau am Dwyni Ynyslas yn cael eu harddangos yn "Y Llyfr Mawr"  
**Poems and pictures about Ynyslas Dunes are displayed in "The Big Book"**



Lluniau: Creu-ad

# Whose place, whose interpretation? involving communities through the arts

How far should “non-experts” make decisions about interpretation? How can professional interpreters help people express their feelings about landscape and historic places? **Shelagh Hourahane** describes how one interpretive arts partnership has made these questions the basis of its work.

One of the biggest challenges for interpretation today is to involve communities in explaining the significance of their own landscape and history. The arts are a powerful means of doing this. Arts engage thoughts and feelings, and can involve a variety of people who might not otherwise have an opportunity to take an active part in interpreting their environment.

Since its foundation in 2001, Creu-ad -


an arts partnership that develops interpretation projects with communities throughout Wales - has based its work on these principles. The partnership's name (pronounced *cray-ad*) comes from “creu” (to create) and “adeiladu” (to build). Creu-ad is particularly committed to working on countryside sites in collaboration with site managers, people who live nearby, and people who visit the site regularly.



Disgyblion  
ysgol yn dysgu  
sgiliau plethu  
a gwehyddu a  
ddefnyddid yn  
niwydiant moresg  
traddodiadol  
Ynys Môn  
**School pupils  
learn plaiting  
and weaving  
skills used in  
Anglesey's  
traditional  
marram grass  
industry**

Photographs: Creu-ad

Mae cynlluniau gan blant, fel y dyfri hwn, wedi'u hymgorffori mewn cerfluniau ar gyfer gwarchodfa natur Cors Caron  
**Children's designs like this otter  
have been incorporated into sculpture  
for Cors Caron nature reserve**



From the start of a project, it's important to break down barriers that may exist between people with different types of interest or stake in the site. The first step is to get everyone to exchange their knowledge and understanding.

Wardens or managers will have extensive, detailed knowledge. Local people are more likely to focus on particular aspects that are interesting and valuable to them personally, stemming perhaps from their own childhood experiences or from received history. The artist, who may be an outsider, brings a lateral way of observing the world and a kit-bag of skills to express ideas and feelings.

So it's important to get everyone concerned to talk, to share, to feel they have something to contribute, and to focus on the central purpose of the project. This process can be lengthy and, as we've discovered, requires patience and flexibility about what will be achieved.

In 2001, Lynne Denman and I began work on “A Sense of Arrival”, an innovative project for the Countryside Council for



Gall gwaith celf deongliadol fod yn gynnil, fel y cynllun sebonllys hwn gan Timothy Pugh yn y Gerddi Botaneg Cenedlaethol Interpretive art can be low-impact, like this soap-wort design by Timothy Pugh at the National Botanic Gardens

wedi eu clymu wrth waliau allanol yr adeilad. Mae hyn yn creu gwahoddiad deinamig, diddorol ac ystyrlon i ymwelwyr brofi'r warchodfa mewn modd personol.

Bydd prosiect newydd Creu-ad sy'n cael ei gynllunio ar hyn o bryd yn datblygu gwaith dehongli ar gyfer Gwarchodfa Natur Leol Pen Dinas yng Ngheredigion. Yma, rydym yn cydweithio â nifer o grwpiau o ardal Penparcau yn Aberystwyth, a bwriadwn gasglu syniadau, teimladau ac atgofion am Ben Dinas gan yr hen a'r ifanc. Mae Pen Dinas yn warchodfa natur mewn amgylchedd arfordirol ac yn safle bryngaer bwysig o Oes yr Haearn. Felly, mae'n dirwedd ddiwylliannol sy'n cynnig sialens i ni ac yn lle cymhleth i'w ddehongli.

## Effaith gyfyngedig

Yn aml, rydym yn dechrau prosiect trwy gynhyrchu gwaith creadigol nad yw'n effeithio ar y safle mewn unrhyw fodd. Mae'n ffordd dda o gael pobl i gymryd rhan a'u helpu i fynegi eu diddordebau a'u syniadau, heb unrhyw ymrwymiad pellach. Mae sawl ffordd o gynhyrchu gwaith celf deongliadol nad yw'n barhaol, gan adael y llwybr yn agored i waith dehongli arall yn y dyfodol.

Bydd llawer o bobl yn y gymuned eisiau siarad neu ysgrifennu am eu hymatebion i'r safle, a gall gwaith cychwynnol â storïwyr, beirdd, artistiaid fideo a cherddorion esgor ar ddeunydd dehongli sydd gyda'r gorau. Gall gwrthrychau tri dimensiwn hyd yn oed gael eu creu mewn modd sy'n golygu eu bod yn pydru neu'n cael eu datgymalu wedi cyfnod byr. Gellir eu trin fel modelau prawf ar gyfer gwaith mwy parhaol.

Mae'n debyg y bydd y prosiect ar gyfer Pen Dinas yn cynnwys fideo yn ogystal â gwrthrychau dros dro a fydd yn cael eu gosod ar y safle yn ystod yr haf i greu taith gerdded ddeongliadol. Gall y draffodaeth a fydd yn deillio o'r rhan hon o'r prosiect arwain at weithiau celf mwy parhaol. Gallai'r rhain gynnwys prosiect dehongli tir uchelgeisiol ar ran o'r warchodfa a arferai gael ei defnyddio fel safle claddu sbwriel.

## Dolennau'r Iaith

Am fod gan Creu-ad ddiddordeb arbennig yn y modd y mae gwahaniaethau diwylliannol yn effeithio ar y ffordd yr ydym yn dirnad tirwedd ac yn ymateb iddi, rydym yn cydweithio â Menter Maldwyn ar brosiect o'r enw Dolennau'r Iaith. Yma, rydym yn canolbwytio ar yr iaith a ddefnyddir i

ddisgrifio tirweddau neu nodweddion tirwedd penodol mewn tri dyffryn yn Sir Drefaldwyn. Mae'n bosibl mai cyfres o gerfluniau ar gyfer pentrefi fydd y cynnrych terfynol, ond bydd y broses yn cynnwys ysgrifennu, adrodd storïau a gwaith celf gweledol arall. Un o nodau penodol y prosiect yw cynnwys pobl leol sy'n dysgu Cymraeg i'w helpu i ddeall y cysylltiadau rhwng iaith a lle.

Mae prosiect uchelgeisiol arall sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd yn ymneud ag afonydd a'u pwysigrwydd i'r cymunedau ar hyd eu glannau yn y gorffennol a'r presennol. Mae'r syniad fod pobl ynghlwm wrth dirwedd mewn sawl ffordd yn thema ganolog i waith Creu-ad, ac rydym wrthi'n datblygu dulliau o gynnwys cymunedau yn y gwaith o archwilio'r syniad hwn.

Mae'r sialens o ddehongli lle yn codi dau gwestiwn yn syth: lle pw? a dehongliad pw? Mae dull Creu-ad o weithredu'n cynnig modd i ateb y cwestiynau hyn, a gallai arwain y ffordd i lawer o brosiectau dehongli yng Nghymru.

Shelagh Hourahane yw Cydgyfarwyddwr Creu-ad.

Cyswllt: shelagh.hourahane@virgin.net

Mae geiriau o'r "Llyfr Mawr" i'w gweld ar y siapiau tebyg i foresg y tu allan i Ganolfan Ymwelwyr Ynyslas

**Words from "The Big Book" appear on the marram grass shapes outside Ynyslas Visitor Centre**



Wales, covering a number of National Nature Reserves. This was a breakthrough opportunity for us, to found Creu-ad and to begin to develop the kind of interpretive work we both wanted to do. Part of our brief for "A Sense of Arrival" was to work with local community groups in various ways. Local people helped develop the themes that would be central to the interpretation, took part in the design process, and made elements of some of the interpretive sculptures.

One of these projects, for Ynyslas Dunes Visitor Centre, enabled local children and adults to write poetry about the nature reserve in English and in Welsh. Selected poems were collected and illustrated in a "Big Book", and phrases from the poems were cut into the shapes resembling marram grass that were attached to the outside of the building. This creates a dynamic, interesting and meaningful invitation for visitors to experience the reserve in a personal way.

A new Creu-ad project now at the planning stage will develop interpretation for Pen Dinas Local Nature Reserve in Ceredigion. Here, we're working with a

number of groups in the Penparcau area of Aberystwyth, and we're planning to gather thoughts, feelings and memories about Pen Dinas from the old and the young. Pen Dinas is a nature reserve in a coastal environment and the site of a major Iron Age hill fort, so it's a challenging cultural landscape and a complex place to interpret.

## Low impact

We often begin a project by producing creative work that does not impact on the site in any way. This is a good way to get people involved and help them to express their own interests and ideas, without further commitment. There are many ways of producing interpretive art that isn't permanent, leaving the way open for other approaches in the future.

Many people in the community will want to talk or write about their responses to the site, and initial work with storytellers, poets, video artists and musicians can produce some of the best interpretive material. Even three-dimensional objects can be made in such a way that they decay or

are dismantled after a short period of time. They can be treated as trial models for more permanent work.

The project for Pen Dinas will probably include video, as well as temporary objects that will be placed on site during the summer to form an interpretive walk. The discussion resulting from this part of the project may lead on to more permanent artworks. These could include an ambitious interpretive land project on a part of the reserve previously used as a landfill site.

## Language links

Because Creu-ad has a particular interest in the way in which cultural differences affect our perception of and response to landscape, we're working with Menter Maldwyn on a project called Dolennau'r Iaith (Language Links). Here, the focus is on the language used to describe particular landscapes or landscape features in three valleys in Montgomeryshire. The final product may be a series of village sculptures, but the process will involve writing, storytelling and other visual artwork. A particular aim is to involve local Welsh learners, to help them understand the links between language and place.

Another ambitious project now under discussion is about rivers and their importance, both past and present, for the communities living along their course. The sense that people are bound to landscape in many ways is a central theme of Creu-ad's work, and we are developing ways of involving communities in exploring this idea.

The challenge of interpreting a place raises two immediate questions: whose place? and whose interpretation? Creu-ad's approach provides a way of answering these questions, and could point to a future direction for many interpretive projects in Wales.

Shelagh Hourahane is  
Co-Director of Creu-ad.  
Contact: shelagh.hourahane@virgin.net

Cadeiriau o helyg sy'n tyfu y bu Ffermwr Ifanc Tregaron yn eu creu ar gyfer gwarchodfa natur Cors Caron  
**Chairs of growing willow made by Tregaron Young Farmers for Cors Caron nature reserve**



# Ceisio cymryd cam yn ôl...

ysgrifennu strategaeth ddehongli ar  
gyfer Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Mae pawb ohonom yn  
ymwybodol o bwysigrwydd  
strategaethau, ond gall ysgrifennu  
un fod yn dasg frawychus. **Steven  
Richards-Price** sy'n disgrifio ei  
brofiad o gynhyrchu strategaeth  
ddehongli ar gyfer Comisiwn  
Coedwigaeth Cymru.

Cafodd fy swydd fel Ymgynghorydd Dehongli  
Comisiwn Coedwigaeth Cymru ei chreu ym  
mis Tachwedd 2002. Roedd hyn yn dilyn cryn  
dipyn o ad-drefnu, pan roddwyd cyfrifoldeb am  
elfennau o waith hamddena a dehongli i lawer  
o'r staff a oedd wedi arfer â gwaith mwy tradd-  
odiadol mewn coedwigoedd. Fy'r ôl i oedd  
cydlynú'r gwaith dehongli ac arwain y gwaith o  
ddatblygu Strategaeth Ddehongli Comisiwn  
Coedwigaeth Cymru.

Cyn hynny, agwedd adweithiol fu gan y  
Comisiwn tuag at ddehongli. Os oedd rhywbeth  
wedi gweld dyddiau gwell, byddai rhywbeth  
newydd yn cael ei roi yn ei le neu byddai'n cael  
ei waredu'n gyfan gwbl. Ond nawr – gyda'r  
strategaeth ddiweddar Coetiroedd i Gymru yn  
rhoi pwyslais ar gynnig "profiad o ansawdd uchel  
i bobl sy'n ymweld â choetiroedd" – mae'n  
rhaid i ni fod yn fwy blaengar a rhagweithiol.

Lluniwyd strategaeth ddrafft gan Bob Jones,  
sef Pennaeth Dylunio a Dehongli Comisiwn  
Coedwigaeth Prydain Fawr ar y pryd, ond  
roedd yn teimlo mai rhywun a oedd yn gweithio  
yng Nghymru ddylai fod yn gyfrifol am ddatblygu  
dehongli yng Nghymru. Er i ni ddefnyddio  
elfennau o ddrafft Bob, fe benderfynom  
ddechrau gyda dalen lân i bob pwrpas. Roeddem  
hefyd yn teimlo bod angen cynlluniau dehongli

ar wahân ar yr ardaloedd hynny o goetir sy'n  
allweddol ar gyfer hamddena, megis y parciau  
coedwigoedd.

Y cwestiwn cyntaf oedd: beth ddylai  
strategaeth ddweud? Yn sympl, dylai egluro sut  
y byddwn yn mynd ati i gyflawni gwaith dehongli  
yn y dyfodol. Yr ail gwestiwn oedd: ar gyfer  
pwy mae'r strategaeth? Yr ateb, mewn termau  
jargonol, yw "budd-ddeiliaid mewnwol ac  
allanol", sy'n golygu'n sympl, staff y Comisiwn  
ac asiantaethau partner perthnasol.

Yna ceisiai ddatblygu "gweledigaeth ar gyfer  
gwaith dehongli", a oedd yn canolbwntio ar  
amcanion y strategaeth Coetiroedd i Gymru.  
Dyma'r pwyntiau a restrais:

- Helpu ymwelwyr i fwynhau a gwerthfawrogi  
coetiroedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Gwneud i ymwelwyr deimlo rhyw gysylltiad  
â choetiroedd
- Dangos i ymwelwyr beth sy'n arbennig
- Creu "ymdeimlad o le"
- Creu ymdeimlad o groeso

Y peth nesaf a feddyliais oedd: "Mae'r cyfan yn  
swnio'n braff iawn, ond sut mae mynd ati?" a  
dyma'r amcanion a restrais:

Bydd y Comisiwn yn cyflawni hyn trwy:

- Wella mwynhad pobl o goedwigodeedd
- Codi ymwybyddiaeth yngylch coetiroedd  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cefnogi twristiaeth gynaladwy
- Dehongli ein hamgylchedd naturiol a'n  
treftadaeth ddiwylliannol
- Cynnwys pobl Cymru yn yr holl beth
- Gweithio gydag eraill
- Cadw golwg ar ein gwaith dehongli
- Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Roedd y pwyntiau hyn yn rhoi fframwaith i'r  
strategaeth. Ysgrifennais frawddeg gyffredinol ar  
gyfer pob un o'r rhain er mwyn atgyfnerthu'r  
amcanion, yna lluniai gorfes o bwyntiau bwled  
yn dangos mewn mwy o fanylder sut y byddwn  
yn cyflawni pob un. Codwyd nifer o'r rhain o'r  
drafft gwych a oedd eisoes wedi'i lunio gan  
Bob Jones.

Wrth gwrs, roedd ymgynghori yn rhan holl  
bwysig o'r broses. Ymgynghorwyd ag Uwch  
Reolwyr a staff perthnasol eraill yn y Comisiwn  
Coedwigaeth, yn ogystal ag aelodau Dehongli  
Cymru. Ar ôl ymgynghori byddai'r strategaeth  
yn cael ei diwygio, a'r peth anodd yngylch  
hyn oedd bod y strategaeth, ar ôl ei diwygio,  
yn cael ei hanfon allan eto ar gyfer ymgynghori  
pellach, ac yn amlach na heb, byddai'n dod  
nôl gyda mwy o newidiadau, a sylwadau ar  
y newidiadau, a hyd yn oed sylwadau pobl  
ar eu newidiadau eu hunain!

Roeddwn i'n teimlo fel pe bawn yn troi  
yn fy unfan. Pe bawn yn gwneud y cyfan  
eto, byddwn yn dosbarthu'r fersiynau wedi'u  
diweddaru yn gyflym iawn er mwyn sicrhau na  
fyddai pobl yn anghofio'r hyn roedd ynt eisoes  
wedi cytuno arno, a byddwn hefyd yn gosod  
terfynau amser mwy llym. Heb derfyn amser,  
mae'n hawdd iawn i bethau lithro.

Problem arall oedd dewis llun ar gyfer y  
clawr. A ddylai gynnwys pobl? A ddylai gynnwys  
golyga o goedwig/coetir? A yw'nadleisio teitl  
y strategaeth? A yw'n edrych yn iawn ar gyfer  
cyhoeddiant yn 2004? Mae'n anodd iawn plesio  
pawb. Roedd cadw'r gynulleidfa darged mewn  
cof yn gymorth wrth ddewis.

Nid yw'r strategaeth wedi ei bwriadu  
i fod yn ganllaw i gynllunio gwaith dehongli.  
Mae deunydd ardderchog ar gynllunio gwaith  
dehongli ar gael yn barod, fel A Sense of Place  
gan James Carter a'r canllawiau a gynhyrchwyd  
gan Scottish Natural Heritage, sydd i'w gweld  
ar snh.gov.uk. Er hynny, roeddwn yn teimlo  
ei bod hi'n bwysig cynnwys rhai dyfyniadau  
allweddol, ac mae'r ddogfen hefyd yn frith  
o luniau perthnasol sy'n atgyfnerthu ein dull  
gweithredu.

Steven Richards-Price yw Ymgynghorydd Dehongli  
Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Cyswlt: steven.richards-price@forestry.gov.uk

We all know the importance of strategies, but writing one can be a daunting task.

### **Steven Richards-Price**

describes his experience of producing an organisational interpretation strategy.

My post as Interpretation Adviser for Forestry Commission Wales (FCW) was created in November 2002. This followed a major re-structuring, when many traditional forestry-based staff suddenly found themselves with responsibility for recreation and interpretation. My new role was to co-ordinate interpretation and to take the lead in developing a Forestry Commission Wales Interpretation Strategy.

Before this, our approach to interpretation had been reactive. If something looked tired, it was either replaced or removed. But now – with the recent Woodlands for Wales strategy stressing the need for “a high-quality woodland visitor experience” – we want to be forward-looking and proactive.

Bob Jones, then Head of Design & Interpretation for the Forestry Commission GB, had drawn up a draft strategy, but felt that someone on the spot should be responsible for developing interpretation in Wales. Though we used elements of Bob’s draft, we decided to start more-or-less from scratch. We also recognised that key recreational areas of woodland, such as our Forest Parks, needed their own interpretive plans.

### **First questions**

The first question was: what should a strategy say? Put simply, it should say how we will deliver interpretation in the future. The next question was: who is it for? The answer, in jargon terms, is “internal and external stakeholders”, which basically means

# **Seeing the wood for the trees...**

writing an interpretation strategy for Forestry Commission Wales



FCW staff and relevant partner agencies.

I then tried to develop an “interpretive vision”, which focused on the objectives of the Woodlands for Wales strategy, and came up with the following:

- Effective interpretation will create a high-quality woodland experience by:
- Helping visitors to enjoy and appreciate the National Assembly for Wales’ woodlands
  - Making visitors feel they’ve connected with woodlands
  - Showing visitors what is special
  - Creating a “sense of place”
  - Creating a sense of welcome

My next thought was: “Well, that all sounds very nice, but how will we do this?” and I came up with these objectives:

FCW will achieve this by:

- Enhancing enjoyment of the forest
- Raising awareness of NAW woodlands
- Supporting sustainable tourism
- Interpreting our natural environment and cultural heritage
- Involving the people of Wales
- Working with others
- Keeping an eye on our interpretation
- Planning for the future

These points provided the framework for the strategy. For each one, I wrote a general sentence to reinforce the objectives, followed by a series of bullet points showing in more detail how we will achieve them. A number of these were cribbed from the excellent draft already done by Bob Jones.

Consultation was, of course, a vital part of the process. Senior Managers and other

relevant staff within the Forestry Commission were consulted, as were members of Dehongli Cymru. The trickiest thing about this was that each time the strategy was amended after consultation, it went round again and invariably came back with more changes, and comments on the changes, and even people’s comments on their own changes!

It just seemed to go round and round. Next time I would circulate updated versions very quickly so that people would not forget what they’d already found acceptable, and I’d set tighter deadlines. Without a deadline it can just drift.

The other problem was selection of a cover photo. Should it contain people? Should it show a forest/woodland scene? Does it echo the title of the strategy? Does it look right for a 2004 publication? It’s very difficult to please everyone. Focusing on the intended audience helped me with my choice.

The strategy isn’t designed to be an interpretative planning guide. Some excellent material on interpretive planning is freely available, such as James Carter’s *A Sense of Place* and the guidance notes produced by Scottish Natural Heritage, downloadable from snh.gov.uk. I did think it important, however, to include some key quotes, and the document is also interspersed with relevant photos to reinforce our approach.

---

Steven Richards-Price is Interpretation Adviser for Forestry Commission Wales.  
Contact: steven.richards-price@forestry.gsi.gov.uk

# Peidiwch â'n gadael ni allan!

dehongli a chynhwysiad cymdeithasol

Elaine Jones

Mae cynhwysiad cymdeithasol yn cael blaenoriaeth uchel ar lefel lywodraethol yng Nghymru. Ond beth mae hyn yn ei olygu o safbwyt gwaith dehongli?

Mae **Elaine Jones** wedi darganfod bod cynnal digwyddiadau dehongli yn ffordd wych o gyflwyno i gefn gwlad y grwpiau hynny sydd wedi'u cau allan ohono yn y gorffennol.

Mae'r term "cynhwysiad cymdeithasol" fel pe bai'n cael ei ddefnyddio ymhob cyfarfod y byddaf yn ei fynychu'r dyddiau hyn, a hynny heb lawer o eglurder a manylder weithiau. Mae pob sefydliad am greu'r argraff eu bod yn croesawu, yn cynnwys ac yn cyrraedd pawb.

Mae rhai darparwyr, foddy bynnag, yn ymbellhau oddi wrth y syniad am eu bod yn synhwyro bod awgrym o "gywirdeb gwleidyddol" yn perthyn iddo, a gwnânt yr esgusodion arferol: "Nid wyf erioed wedi cau neb allan – mae'r arddangosfa / digwyddiad / taith gerdded dywyssedig sydd gen i ar agor i unrhyw un sydd am ddod", neu "Mae gan bobl ddewis – gallan nhw ddod os ydyn nhw'n dymuno".

Yn anffodus, mae'r ddua ddatganiad hyn yn dangos diffyg dealltwriaeth. Efallai fod pobl sydd wedi'u cau allan o gymdeithas yn bobl

sy'n mwynhau cymryd rhan, ond nid oes ganddynt ddigon o hyder, gwybodaeth na phrofiad – na'r arian na'r offer yn aml chwaith – i wneud hynny. Yr her i sefydliadau sy'n ymwneud â threftadaeth a chefn gwlad, megis Parciau Cenedlaethol, yw craffu'n ofalus ar eu hunain ac adnabod y rhwystrau y maent efallai wedi'u codi, yn ddiarwybod yn aml, sydd yn cau rhai rhannau o'r gymuned allan.

Pa fath o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol? Mae'r dystiolaeth i gyd yn dangos mai pobl â gwahanol alluoedd corfforol, pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a phobl ag incwm isel sy'n amlwg yn absennol.

## Diffyg hyder

Beth sy'n rhwystro'r grwpiau hyn rhag ymweld â Pharciau Cenedlaethol? Mae'n amlwg bod cael mynediad i gefn gwlad yn achosi problem i lawer oherwydd diffyg incwm, diffyg cludiant cyhoeddus, diffyg gwybodaeth neu oherwydd anabledd corfforol. Ond rhywbeth sydd yr un mor bwysig yw'r teimlad sydd ganddynt o beidio â pherthyn, o beidio â gwybod beth i'w ddisgwyl ac o ddiffyg hyder mewn amgylchedd dieithr.

Nid yw'r broses o gael gwared â'r rhwystrau hyn yn un syml. Mae angen i ni fod yn rhagweithiol wrth annog pobl newydd i fentro arni. Ond pa mor bell y gallwn ni fynd? A yw'r adnoddau neu'r sgiliau gennym i ymgymryd â'r maes gwaith helaethach hwn? Ar beth y dylem ni ganolbwytio ein hymdreichion? Mae nifer o gwestiynau sydd heb eu hateb o hyd.



Pobl â nam ar eu golwg yn mwynhau taith gerdded dywyssedig yn Sir Benfro  
**Visually impaired people enjoy a guided walk in Pembrokeshire**

Er mwyn gwneud cynnydd mae'n rhaid i ni weithredu ar sawl lefel. Yr hyn a ysgogodd yr ymgyrchwr cyntaf dros gael Parciau Cenedlaethol oedd eu cred y dylid ehangu mynediad i gefn gwlad, ac mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi bod yn gweithio ar amrywiaeth o fesurau i gyflawni'r nod hwn ers rhai blynnyddoedd. Ond mae angen i ni sicrhau bod cynhwysiad cymdeithasol yn rhan o'n gwaith craidd ni ac nad eilbeth yn unig ydyw. Drwy ymgorffori cynhwysiad cymdeithasol yn ein gwaith canolog, ein nod yn y tymor hir yw sicrhau ein bod yn apelio at bob rhan o gymdeithas.

## Gwthio'r cwch i'r dŵr

Yn y cyfamser, foddy bynnag, mae angen cychwyn y broses a thargedu rhai o'r grwpiau sydd wedi'u cau allan. Yn aml, y ffordd orau o wneud hyn yw trwy bartneriaethau, gan gydweithio â'r rhai hynny sydd â sgiliau a phrofiad yn y maes hwn. Ond gallwn hefyd weithio'n uniongyrchol i ehangu cyfranogiad trwy newid rhyw fymryn ar ganolbwyt yr hyn yr ydym eisoes yn ei wneud.

Ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, rydym wedi ceisio gwneud y gweithgareddau'r ydym yn eu trefnu ar hyn o bryd yn fwy perthnasol i ystod ehangach o bobl. Yr unig beth yr ydym wedi'i wneud yw newid pwyslais ryw ychydig. Mae enghreifftiau o'r ffyrdd yr aethom ati'n cynnwys targedu ysgolion ag ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn eu dalgylch, darparu digwyddiadau wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer grwpiau penodol fel rhan o'r rhaglen weithgareddau a dig-

# Include us in!

## interpretation and social inclusion

Social inclusion is a high priority for Wales at government level. But what does this mean for interpretation?

**Elaine Jones** has found that interpretive events are an ideal way of introducing traditionally excluded groups to the countryside.

Gwaith dehongli personol y Ceidwad yw cyfrinach llwyddiant y diwrnodau "blasu"  
**The Ranger's interpretive role is the secret of success for "taster" days**

It seems that the term "social inclusion" is used in every meeting I go to these days, sometimes without a great deal of clarity or precision. All organisations want to be seen to be embracing, engaging and reaching out.

Some providers, however, are alienated by the whiff of "political correctness" and make the standard excuses: "I've never excluded anyone – my exhibition/event/guided walk is open to anyone who comes along" or "People have a choice – they can come along if they want to".

Unfortunately both these statements miss the point. People who are socially excluded may well enjoy getting involved, but they lack the confidence, knowledge and experience – and often the money and gear – to do so. The challenge for heritage and countryside organisations, such as National Parks, is to take a hard look at themselves and identify the barriers which they, often unwittingly, may have erected which exclude some sections of the community.

What sort of people are under-represented? All the evidence shows that

people with different physical abilities, young people, ethnic minorities and people on low incomes are most obviously absent.

### Lack of confidence

What stops these groups visiting National Parks? Gaining access to the countryside is clearly a problem for many, through lack of income, lack of public transport, lack of information or physical disability. But equally important is the feeling of not fitting in, not knowing what to expect and lack of confidence in an unfamiliar environment.

To remove these barriers is not a simple process. We need to be proactive in encouraging new people to take a leap in the dark. But how far can we go? Do we have the resources or skills to embark upon this expanded area of work? Where should we concentrate our efforts? There are many questions which still need to be answered.

To make progress we must move on a number of levels. The early protagonists of National Parks were motivated by their belief in widening access to the countryside, and National Park Authorities have been working on a range of measures to achieve this aim for some years. But we need to ensure that social inclusion is part of our core business and not merely an "add-on".

By building social inclusion into our mainstream work, we aim, in the long term, to make sure that we appeal to all sections of society.

### Kick-start

However in the meantime, there is a need to kick-start the process and target some of the excluded groups. Often this is best done through partnerships, working with those who have skills and experience in this area. But we can also work directly to widen participation by slightly changing the focus of what we already do.



Elaine Jones

wyddiadau, ac ymgorffori technegau'n ymwneud â'r synhwyrau yn ein hyfforddiant i arweinwyr digwyddiadau.

Proffodd prosiect peilot gyda Grŵp Estyn Cymorth i Ofalwyr Sir Benfro pa mor llwyddiannus y gall yr agwedd hon fod. Mewn cyfres o ddiwrnodau "blasu" yn ystod haf 2003, ymunodd gofalwyr â Cheidwaid y Parc Cenedlaethol ar deithiau tywysedig oedd yn mynd ar hyd rhannau o Lwybr yr Arfordir y mae'n hawdd mynd atynt.

Nod y diwrnodau hyn oedd rhoi cyfle i ofalwyr fwynhau ymwelliad oedd yn rhoi seibiant iddynt, codi ymwybyddiaeth o rintweddau arbennig y Parc a gwaith Awdurdod y Parc, a rhoi gwybodaeth a phrofiad i ofalwyr a fyddai'n rhoi hwbs i'w hyder ac yn eu hannog i ddefnyddio'r Parc ar eu pen eu hunain yn y dyfodol. Roedd yn fod i'r Awdurdod hefyd gael adborth gwerthfawr ynglŷn â hygyrchedd yr ardaloedd yr ymwellwyd â nhw, gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol o amrywiaeth o anableddau.

Nid oedd mwyafrif y gofalwyr yn gyfarwydd â'r ardaloedd yr ymwellwyd â nhw, ac rodden nhw i gyd yn bwriadu dychwelyd yno gyda'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. "Credaf y byddai ymwelliadau wedi'u trefnu'n debyg i hwn yn ddefnyddiol iawn i laver o grwpiau, fel eu bod yn gweld yr hyn sydd yn y Parc Cenedlaethol mewn gwirionedd ac yn ei fwynhau" – dyna oedd y farn gyffredinol, ac mae'n cadarnhau gwerth y diwrnodau blasu.

Mae'n werth nodi hefyd i ni ofyn y cwestiwn hwn, sef "Pa agwedd ar y diwrnod y gwnaethoch chi ei mwynhau fwya?" , a'r ateb mwyaf cyffredin oedd "Yr wybodaeth ddiddorol yr oedd y Ceidwad yn ei rhannu â ni". Mae hyn yn cadarnhau pwysigrwydd dehongliadau personol wrth greu brwd-frydedd am le arbennig.

Fodd bynnag, mae rhai pobl yn teimlo'n anniddig gyda'r dull hwn o dargedu grwpiau. Maent yn dadlau mai ystyr bod yn gynhwysol yw trin pawb yr un fath, neu'n

awgrymu ein bod ni rywfodd neu'i gilydd yn nawddoglyd wrth "labelu" rhannau penodol o gymdeithas neu roi sylw arbennig iddynt. Ond y faith amdani yw bod y dulliau a ddefnyddiwyd yn y gorffennol wedi methu a bod rhai grwpiau arbennig heb gynrychiolaeth ddigonol yng nghefn gwlad o hyd.

Mae gan hyn oblygiadau pwysig. Os yw Parciau Cenedlaethol am gyflawni eu pwrpas ym maes cadwraeth, mae angen iddynt ehangu eu cynulleidfa ac ennyn mwy o ymdeimlad o berthyn, gan ddenu pobl sy'n rhannu'r un gwerthoedd â nhw ac yn credu yn yr hyn y maent yn ei wneud. Efllai fod angen y labeli arnom i'n hatgoffa mai nid diffyg diddordeb, na diffyg darpariaeth hyd yn oed, sy'n gyfrifol am gau rhai grwpiau penodol allan, ond agweddau – proffesiynol a sefydliadol – y mae angen i ni eu harchwilio a'u herio.

*Mae Elaine Jones yn Swyddog Dehongli i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro.*

Cyswllt: elainej@pembrokeshirecoast.org.uk

## Strategaeth newydd ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol

Bydd gan ddehongli'r rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o weithredu Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol newydd Bwrdd Croeso Cymru. Mae'r Bwrdd Croeso wedi seilio'r strategaeth ar ddatganiad o weledigaeth sy'n ystyried diwylliant byw ac unigryw Cymru'n rhan hanfodol o brofiad yr ymwellyd.

Mae'r strategaeth yn cynnig pedair rhaglen, a phob un yn galw am bartneriaeth rhwng y diwydiant twristiaeth a sefydliadau diwylliannol. Y rhagleni yw: gwneud diwylliant Cymru'n fwy hygyrch i bob ymwellyd, gwella ansawdd profiad yr ymwellyd, codi profil Cymru fel cwrchfan twristiaeth ddiwylliannol, a deall nodweddion ac anghenion yr ymwellyd diwylliannol.

Mae "datblygu ymdeimlad o le" yn fenter allweddol sy'n cael ei chefnogi gan wasanaeth ymgynghorol arbenigol. Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi cynhyrchu pecyn ymarferol sy'n anelu at gynorthwyo ac annog busnesau megis atyniadau ymwellwyr, gwestai a thai bwyta i greu eu hymdeimlad eu hunain o le, sy'n

gysylltiedig â'r ardal leol.

Mae "gosod arwyddybyst diwylliannol" yn fenter arall sy'n anelu at wneud ymwellwyr (a thrigolion) yn ymwybodol o atyniadau a digwyddiadau tebyg drwy Gymru. I'r ymwellwyr, gallai hyn olygu ymestyn eu harhosiad, ymwell ag ardaloedd eraill yng Nghymru a hwyrach dod ar ymwelliad arall.

Mae Bwrdd Croeso Cymru yn gweithio gydag Amgueddfeydd ac Orielau Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Cadw hefyd i edrych ar ddatblygu rhai atyniadau'n "byrth diwylliannol" a fyddai'n cynorthwyo ymwellwyr i ddeall diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg a'u mwynhau.

*Mae copiau o'r Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol i Gymru ar gael gan Bwrdd Croeso Cymru, Uned Bolisi, Tŷ Brunel, Ffordd Fitzalan, Caerdydd CF24 0UY, ffôn 02920-499909 neu www.visitwales.com*

## Plas Tan y Bwlch

Canolfan Astudiaethau Amgylcheddol Parc Cenedlaethol Eryri

**Hyfforddiant  
Dehongli 2004-05**



### Creu Prif Gynllun Dehongli

Tiwtor: John Veverka  
11-13 Mai 2004 Pris: £252

### Cynllunio a Dylunio Paneli Dehongli Awyr Agored

Tiwtor: John Veverka  
15-17 Medi 2004 Pris: £252

### Dehongli Amgylcheddol

Tiwtor: Carl Atkinson  
27 Medi - 1 Hydref 2004  
Pris: £342

### Trin Geiriau: Ysgrifennu am leoedd, ysgrifennu i ymwellwyr

Tiwtoriaid: James Carter a Susan Cross  
31 Ionawr - 3 Chwefror 2005 Pris: £338

Am ragor o wybodaeth ac i archebu lle drwy'r we: [www.plastanybwlc.com](http://www.plastanybwlc.com)  
Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3YU  
01766-590324/590334

In Pembrokeshire Coast National Park, we've tried to make our current activities more relevant to a wider range of people. This has needed only a slight shift of emphasis. Examples of our approach include targeting schools with Community First areas, providing tailor-made events as part of the activities and events programme, and incorporating sensory techniques into our event leader training.

A pilot project with the Pembrokeshire Carers Outreach Group proved how successful this approach can be. In a series of "taster" days in summer 2003, carers joined National Park Rangers on guided tours covering some of the easy access sections of the Coast Path.

The days aimed to provide carers with an enjoyable respite visit, raise awareness of the Park's special qualities and the Park Authority's work, and give carers the information and experience to increase their confidence and encourage them to

use the Park independently in the future. It also gave the Authority valuable feedback on the accessibility of the areas visited, from people with direct experience of a range of disabilities.

Most of the carers were not familiar with the areas visited and all intended to make a repeat visit with the people they cared for. "Arranged outings such as this would, I believe, be very useful for many groups – to actually realise and enjoy what is here in the National Park," was a typical view, confirming the value of the taster days.

It's also worth noting that when asked "What aspect of the day did you enjoy most?" the most common answer was "The interesting information given by the Ranger". This confirms the importance of personal interpretation in generating enthusiasm for a place.

However, some people feel uncomfortable with this targeted approach. They argue that being inclusive means treating

everyone the same, or that we are somehow being patronising by singling out or "labelling" particular sections of society. But the fact is that past approaches haven't worked, and certain groups are still under-represented in the countryside.

This has important implications. If National Parks are to achieve their conservation purpose they need to widen their audience base and create more vested interests – people who share their values and believe in what they're doing. Perhaps we need the labels to remind us that one reason certain groups are excluded is not their lack of interest, nor even lack of provision, but attitudes – both professional and institutional – which we need to examine and challenge.

---

*Elaine Jones is Interpretation Officer for Pembrokeshire Coast National Park.  
Contact: elainej@pembrokeshirecoast.org.uk*

## Plas Tan y Bwlch

Snowdonia National Park

Environmental

Studies Centre

**Interpretation**

**Training 2004-05**



### **Interpretive Master Planning**

Tutor: John Veverka

11-13 May 2004 Price: £252

### **Planning and Design of Outdoor Interpretive Panels**

Tutor: John Veverka

15-17 September 2004 Price: £252

### **Environmental Interpretation**

Tutor: Carl Atkinson

27 September – 1 October 2004

Price: £342

### **A Way with Words: Writing about places, writing for visitors**

Tutors: James Carter & Susan Cross

31 January - 3 February 2005 Price: £338

For further information and to book on-line:  
[www.plastanybwchl.com](http://www.plastanybwchl.com)

Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3YU  
01766-590324/590334

## New strategy for cultural tourism

Interpretation will have an important role to play in implementing the Wales Tourist Board's new Cultural Tourism Strategy. WTB has based the strategy on a vision statement that sees Wales' unique and living culture as an essential part of the tourist's experience.

The strategy proposes four programmes, all calling for partnership between the tourist industry and cultural organisations. They are: making the culture of Wales more accessible to all visitors, improving the quality of the visitor experience, raising the profile of Wales as a cultural tourism destination, and understanding the characteristics and needs of the cultural tourist.

"Developing a sense of place" is one key initiative, supported by a specialist advisory service. WTB has produced a practical toolkit aimed at helping and encouraging businesses such as visitor attractions, hotels and restaurants

to create their own local sense of place.

Another initiative is "cultural signposting", which aims to make visitors (and residents) aware of similar attractions and events throughout Wales. For visitors, this will mean extending their stay, visiting other areas of Wales and perhaps returning for a repeat visit.

WTB is also working with the National Museums & Galleries of Wales, Arts Council of Wales, National Library of Wales, Welsh Language Board and Cadw to explore the development of some attractions as "cultural gateways" which would help tourists understand and enjoy Welsh culture and language.

Copies of the *Cultural Tourism Strategy for Wales* are available from WTB, Policy Unit, Brunel House, Fitzalan Road, Cardiff CF24 0UY, tel 02920-499909 or [www.visitwales.com](http://www.visitwales.com)

# Gwaith celf yn y parc

Mae parc lleol Bargod wedi bod yn fwrlwm o waith creadigol, diolch i nawdd gan Cydcoed – Coedydd i Bawb. Dyma adroddiad

**Dave Penberthy.**

Mae pedwar artist, bardd a fflotograffydd wedi bod yn gweithio dros y deunaw mis diwethaf ar brosiect celfyddydau cyffrous a llawn dychymyg ym Mharc Coetir Bargod yn Ne Cymru.

Llwyddodd Cyngor Tref Bargod a Gwasanaeth Cefn Gwlad a Thirlunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ennill grant gwerth £289,000 gan Cydcoed. Gwariwyd dros ddwy ran o dair o'r grant ar blannu coed a gwella cynefinoedd a mynediad i'r parc.

Defnyddiwyd y gweddill i ariannu ystod eang o weithgareddau artistig gan gynnwys creu un ar ddeg o fynedfeydd wedi'u cerflunio i'r parc, casgliad o gerddi atgofus gan Ann Drysdale - bardd enwog yn genedlaethol, a chofnod dogfennol o'r prosiect gan y ffotograffydd, Tim Collier. Cydweithiodd Ann a Tim yn agos iawn hefyd i gynhyrchu llyfr trawiadol a nodedig.

Mae llwyddiant y prosiect yn adlewyrchu'r rhan fawr oedd gan y gymuned i'w chwarae ynddo, oedd yn cynnwys plannu coed a bylbiau, gwaith ymgynghori artistig mewn clybiau bocsio a chlybiau cinio, a digwyddiad mawr yn yr haf a drefnwyd gan Dynamix Ltd, sef cwmni cydweithredol o Abertawe sy'n ymwneud â'r celfyddydau. Roedd gweithgareddau'r digwyddiad hwnnw'n cynnwys adrodd straeon, gêmâu parasiwt a gêmâu pelen y ddaear (earth-ball), ac fe ddaeth

pobl mewn gwisgoedd ffansi oedd wedi'u creu mewn gweithdai cymunedol yr wythnos flaenorol. Fel ymhob parti llwyddiannus, aeth pawb adref â phecyn o bethau da!

Rhaglen gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yw Cydcoed – Coedydd i Bawb sy'n hyrwyddo defnyddio coedydd a choedwigoedd Cymru ar gyfer datblygu cymunedol. Mae'r rhaglen yn cynnig nawdd a chefnogaeth 100% i helpu pobl i wneud gwell defnydd o goetir ar gyfer swyddi, adfywio economaidd, cynhwysiad cymdeithasol, hamddena a chadwraeth, a chaiff ei hariannu ar y cyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

Dave Penberthy yw Uwch Swyddog Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.  
Cyswllt: penbed@caerphilly.gov.uk

Mae Bargoed - a landscape in waiting ar gael gan Gyngor Tref Bargod am £10 (+ costau postio a phecynnu). Ffoniwch 01443-830184 neu anfonwch e-bost i bargoedtc@tiscali.co.uk i gael mwy o fanylion.



# Arts in the park

Bargoed's local park has blossomed with creativity, thanks to funding from Cydcoed - Woods for All.

**Dave Penberthy** reports.

Four artists, a poet and a photographer have been working for the past 18 months on an imaginative and exciting arts project in Parc Coetir Bargod in South Wales.

Bargoed Town Council and Caerphilly County Borough Council's Countryside

& Landscape Service were successful in gaining a £289,000 grant from Cydcoed. Over two-thirds of the grant was spent on tree planting, habitat and access improvements.

The rest funded a wide range of artistic activities, including creation of eleven sculpted gateways into the park, a collection of evocative poems by nationally recognised poet Ann Drysdale, and a documentary of the project by photographic artist Tim Collier. Ann and Tim also worked closely together to produce a stunning and remarkable book.

The success of the project reflects the large amount of community involvement built into it, including tree and bulb planting, artistic consultations in boxing clubs and lunch clubs, and a large summer event organised by Swansea based arts co-operative Dynamix Ltd. This involved storytelling, earth-ball and parachute games, and people wore fancy dress made in community workshops the week before. And as with all great parties, everyone went home with a bag of goodies!

Cydcoed - Woods for All is a Forestry Commission Wales programme that promotes Welsh woods and forests for community development. It gives 100% funding and support to help people make better use of woodland for jobs, economic regeneration, social inclusion, recreation and conservation, and is jointly funded by the National Assembly of Wales and the European Union.

*Dave Penberthy is Senior Planning Officer with Caerphilly County Borough Council. Contact: penbed@caerphilly.gov.uk*

*Bargoed - a landscape in waiting is available from Bargoed Town Council for £10 (+ post & packing). Call 01443-830184 or e-mail bargoedtc@tiscali.co.uk for details.*

**Mae llwybrau anifeiliaid a phobl sy'n defnyddio'r parc yn cael lle amlwg mewn dau o'r cynlluniau ar gyfer mynedfeidd newydd  
Animal tracks and people who use the park feature in two of the new gateway designs**

Dave Penberthy



Chwith: Trigolion lleol yn dathlu'r prosiect mewn parti yn y parc  
**Left: Local residents celebrate the project with a party in the park**

Photo: Tim Collier



# **Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn croesawu newidiadau**

**gan Huw Hughes**

A yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn barod i wynebu her y dyfodol? Gobeithio ei bod hi, yn dilyn gwaith ailstrwythuro a gyhoeddwyd am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2001 ond nad yw wedi dechrau dwyn ffrwyth tan yn awr. Mewn cyfnod lle mae dysgu gydol oes yn bwysig, mae dehongli ac addysgu - a oedd yn arfer bod yn ddau faes gwahanol - wedi cael eu cyfuno dan faner "dysgu" o safbwyt timau ymgynghori.

Nid yw enwau'r bobl y byddwch yn cysylltu â nhw ar safleoedd unigol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi newid o gwbl, ond y prif bobl i chi gysylltu â nhw yn Swyddfa Cymru yn Llandudno yn awr yw Delyth Phillipps a minnau, ac mae'r ddau ohonom yn rhannu'r un teitl, sef Swyddog Dysgu a Dehongli Cymru. Roeddwn i'n arfer gweithio fel Swyddog Addysg yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru, ond mae Delyth yn gwbl newydd i elusen gadwraeth fwyaf Ewrop gan iddi fod yn gweithio i gwmni cynhyrchu rhagleni teledu annibynnol cyn hynny.

Un o'r prif dasgau yr ydym yn eu hwynebu yw ymateb i Weledigaeth Ddysgu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chynnal archwiliad enfawr o'r ddarpariaeth addysgol sydd ar gael ar hyd a lled eiddo'r YG yng Nghymru, cyn llunio strategaeth ddraft ar gyfer y tymor canolig. Yn ystod 2004, bydd yr Ymddiriedolaeth yn neilltuo mwys o amser staff i ddatblygu Cylluniau Dysgu ar gyfer pob un o'i 14 grŵp eiddo yng Nghymru, gyda'r bwriad o sicrhau cefnogaeth gyllidebol i brosiectau a fydd yn adfywio safleoedd o 2005 ymlaen.

Mae llawer o bwyslais ar gynllunio a gwasanaethu anghenion ymgynghori cwsmeriaid mewnol ar hyn o bryd. O gofio bod 17 o safleoedd ar agor yng Nghymru sydd â thâl mynediad ac sy'n denu o leiaf 650,000 o ymwelwyr y flwyddyn, a bod dros 100,000 erw o dir yng nghefn gwlaid sy'n gwasanaethu llawer mwy na hynny, mae llawer o gylleoedd i gyflawni nod y Weledigaeth, sef darparu profiadau dysgu a allai drawsnewid bywydau pobl.

Ni fydd modd gwreddu potensial yr Ymddiriedolaeth i gyrraedd y nod o safbwyt dehongli ac addysgu heb y pwyslais cychwynnol hwn ar gynllunio yn ogystal â pharodrwydd yn dilyn hynny i weithio mewn partneriaethau ar lefel leol a chenedlaethol yng Nghymru. Mae bod yn rhan o rwydwaith Dehongli Cymru yn rhoi cyfle gwych i'r Ymddiriedolaeth ddod o hyd i bartneriaid addas ar gyfer prosiectau, ac edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth â chymunedau ac asiantaethau i gyflawni dyheadau ein sefydliad.

---

Mae Huw Hughes yn un o ddau Swyddog Dysgu a Dehongli'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru.  
Cyswllt: [Huw.Hughes@nationaltrust.org.uk](mailto:Huw.Hughes@nationaltrust.org.uk)

# **National Trust embraces change**

**by Huw Hughes**

Is the National Trust fit for the challenges of the future? Hopefully, it is, following a restructuring that was first announced in December 2001 but which is only now bearing fruit. In these days of life-long learning, the formerly distinct areas of interpretation and education have been merged under the banner of "learning" at advisory team level.

While contacts at individual NT sites remain unchanged, the main contacts at the Wales Office in Llandudno are now myself and Delyth Phillipps, who both share the Learning & Interpretation Officer Wales job title. While I was formerly the Trust's Education Officer for Wales, Delyth is completely fresh to Europe's largest conservation charity, having worked previously for an independent television production company.

One of the main tasks facing us is responding to the National Trust's Vision for Learning, and undertaking a massive audit of learning provision across NT properties in Wales, before shaping a draft strategy for the medium term. During 2004, the Trust will devote more staff time to the development of Learning Plans for each of its 14 property groupings in Wales, with a view to securing budgetary support for projects that will breathe new life into sites from 2005 onwards.

The emphasis at the moment is very much on planning and serving the advisory needs of internal customers. With 17 paid-entry sites open in Wales, attracting at least 650,000 visitors a year, and over 100,000 acres of countryside that cater for many more, there's a lot of potential to deliver the Vision's aim of providing life-changing learning experiences.

The Trust's potential to deliver on interpretation and education will not be realised without this initial emphasis on planning, and a willingness subsequently to work in partnership at local and all Wales levels. Being part of the Dehongli Cymru network offers the Trust a great opportunity to match up projects with partners, and we're looking forward to working in partnership with communities and agencies to achieve our organisational aspirations.

---

Huw Hughes is one of the National Trust's two Learning & Interpretation Officers for Wales.  
Contact: [Huw.Hughes@nationaltrust.org.uk](mailto:Huw.Hughes@nationaltrust.org.uk)